OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 Rhif (Cy.)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 11 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ynghylch etholiadau llywodraeth leol. Mae Rhan 1 yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac mae Rhan 2 yn diwygio is-ddeddfwriaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2018 Rhif (Cy.)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni ***

Gwnaed ***

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ***

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**) (sy'n ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 11 o'r Ddeddf honno a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael(**2**).

(**1**) 2018 p. 16.

(**2**) Diffinnir "exit day" yn adran 20(1) i (5) (dehongli) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

RHAN 1

Diwygiad i ddeddfwriaeth sylfaenol

Diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

2. Yn Atodlen 2 i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**1**) (aelodaeth o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol), hepgorer paragraff 1(4)(d).

RHAN 2

Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007

3. Yn Rhan Ch o Atodlen 1 (swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod) i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007(**2**), hepgorer paragraff 7.

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

4.—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), hepgorer y diffiniadau o "etholiad Senedd Ewrop" ("*European Parliamentary election*") ac "etholiad cyffredinol Senedd Ewrop" ("*European Parliamentary general election*")(**4**).

(3) Yn Nhabl 5 (Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(**5**)) o Atodlen 4 (cymhwyso, gydag addasiadau, deddfau ac is-ddeddfwriaeth), yn y

---

(**1**) 2011 mccc 4.

(**2**) O.S. 2007/399 (Cy. 45).

(**3**) O.S. 2008/1848 (Cy. 177).

(**4**) Rhaid dehongli'r diffiniadau yn unol ag adran 27(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50). Diwygiwyd adran 27(1) gan adran 3 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd (Diwygio) 1986 (p. 58) o ganlyniad i ailenwi Cynulliad Ewrop yn Senedd Ewrop.

(**5**) O.S. 2001/341.

rhes sy'n darparu ar gyfer addasu Atodlen 3, Ffurf E(**1**)—

(a) yn lle "Yn lle "European Parliamentary electoral region" rhodder "Referendum voting area…"." rhodder "Ar ôl "Local government electoral area(s)" mewnosoder "Referendum voting area…".";

(b) yn lle "hyd at "electoral region]]"" rhodder "hyd at "electoral area]]"".

Enw

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

(**1**) Diwygiwyd Atodlen 3, Ffurf E o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 gan baragraff 1(7)(b) o Atodlen 8 i Orchymyn Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau i Is-ddeddfwriaeth) 2005 (O.S. 2005/2114) a Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Etholiadau Senedd Ewrop Etc. (Darpariaethau Diddymu, Dirymu, Diwygio ac Arbed) (Y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2018 (O.S. 2018/1310).